**CFfI**

Mae'n nosi,
mae'n bryd ei throi hi
ar ras, ar ruthr
i'r neuadd fach
sy'n prysur lenwi.

Yn y drws, gwelaf gysgod
hogen fach
yn eiddil wylio,
yn eiddil wrando,
ar y criw
a'u straeon gwallgo'

am gaeau gwlyb y Rali,
peintiau hwyr y parti,
holl firi'r caru, a'r cystadlu.

Fe'i gwyliaf,
yn hanner gwenu,
yn hanner cochi
yn union fel gwnes innau
ar drothwy'r drws.

Ond mae rhywbeth yn ei denu

ac er bo'r nos yn araf nosi
mae un arall yn mentro arni.

**Megan Elenid**